Tyfu Canolbarth Cymru
Growing Mid Wales

# ADRODDIAD I FWRDD TYFU CANOLBARTH CYMRU

**19 Ebrill 2024**

| | |
|---|---|
| TEITL: | Amnewid Prosiectau a Chael Rhestr o Brosiectau Arfaethedig |
| AWDUR: | John Collingwood, Rheolwr y Rhaglen Safleoedd ac Eiddo |

## 1 Diben yr adroddiad

1.1 Arfarnu ystyriaethau Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru o ran Protocol Rheoli Newid y Portffolio, ac yn enwedig y broses ar gyfer Amnewid Prosiectau gan ddefnyddio Rhestr o Brosiectau Arfaethedig, pe bai'r angen yn codi, yn dilyn cymeradwyaeth gan Fwrdd Cyflawni'r Portffolio ym mis Mawrth 2024.

## 2 Penderfyniad(au) a geisir

2.1 Cymeradwyo Protocol Rheoli Newid y Portffolio, ac yn enwedig y broses ar gyfer Cau Prosiectau ac Amnewid Prosiectau (gan ddefnyddio Rhestr o Brosiectau Arfaethedig).

## 3 Cefndir ac ystyriaethau perthnasol

3.1 Mae'r Achos Busnes Portffolio Strategol yn cadarnhau cwmpas arfaethedig Bargen Twf Canolbarth Cymru a'i phrosiectau.

3.2 Mae Swyddfa Rheoli'r Portffolio yn parhau i ddatblygu protocolau gweithredol ar gyfer cyflawni'r Fargen Twf er mwyn diwallu anghenion byw. Mae'r rheini erbyn hyn yn cynnwys cynigion i reoli newid prosiectau, ym mha fodd bynnag y mae hynny'n digwydd ac i'r graddau y mae gan y Fargen Twf fuddiant mewn newid o'r fath.

3.3 At hynny, mae Swyddfa Rheoli'r Portffolio wedi ystyried pa gamau y gellid eu cymryd pe bai prosiect yn methu yn y pen draw, a pha opsiynau unioni a allai fod ar gael mewn amgylchiadau o'r fath.

## 4 Protocol Rheoli Newid y Portffolio

4.1 Caiff y Protocol Rheoli Newid a gynigir ar gyfer y Portffolio ei egluro yn y llifsiart sydd ynghlwm yn **Atodiad A**.

4.2 Mae'r Protocol yn cynnig dull cam wrth gam o hyrwyddo, gwerthuso ac ystyried unrhyw Geisiadau am Newid. Cyfrifoldeb y Noddwr Prosiect sy'n cynnig y newid fydd cyflawni'r holl weithgareddau angenrheidiol i werthuso a chyfiawnhau unrhyw Gais am Newid. Mae'r Protocol yn caniatáu i drefniadau llywodraethiant prosiectau, rhaglenni a'r Portffolio roi sylw i unrhyw newidiadau o'r fath, yn amodol ar lefelau goddefiant sy'n cynyddu'n raddol neu awdurdod dirprwyedig.

4.3 Bydd y Meini Prawf ar gyfer Newid a nodir yn **Nhabl 1** ar y dudalen ganlynol yn berthnasol i bob Cais am Newid er mwyn pennu sgôr goleuadau traffig, a bydd y sgôr honno yn ei thro'n penderfynu pa grŵp llywodraethiant ddylai ymdrin yn y lle cyntaf â'r newid. Beth bynnag, gall grŵp llywodraethiant sydd ar lefel is

gyfeirio'r newid at grŵp llywodraethiant sydd ar lefel uwch i benderfynu yn ei gylch, os yw'n dymuno.

4.4 **Pe bai angen i'r Cais am Newid/Mater gael ei uwchgyfeirio at Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru, gellid rhoi cyfarwyddyd i Gau'r Prosiect mewn rhai amgylchiadau**.

**Tabl 1 – Sgorau Goleuadau Traffig – Methodoleg a Lefelau Goddefiant Grwpiau Llywodraethiant**

| **Meini Prawf ar gyfer Newid** | **Isel Iawn (o ran goddefiant)** | **Isel** | **Canolig** | **Uchel** |
|---|---|---|---|---|
| | **Bwrdd Prosiectau** | **Bwrdd Rhaglenni** | **Bwrdd Cyflawni'r Portffolio** | **Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru** |
| Cyfanswm cynnydd o ran cost neu arian y prosiect<br>(gwerth pob newid = hyd at uchafswm amrywiant o % gyfansymiol fel y nodir) | <£0.1m<br>Uchafswm amrywiant yn <5% | £0.1-0.5m<br>Uchafswm amrywiant yn 5-10% | £0.5-1.0m<br>Uchafswm amrywiant yn 10-30% | >£1.0m<br>Uchafswm amrywiant yn >30% |
| Cynnydd o ran yr arian y gofynnir amdano gan y Fargen Twf | | | | Unrhyw amrywiant |
| Oedi o ran cyflawni / cyrraedd cerrig milltir | <2 fis | 2-6 mis | 6 mis i 1 flwyddyn | >1 flwyddyn |
| Ansawdd y cynnyrch – gan gynnwys Cwmpas a Risg – o gymharu â'r Strategaeth Ddylunio a'r Gofrestr Risg | Mân achos(ion) o fethu â chydymffurfio neu<br>Gwerth y risg yn <0.5m | Mân achos(ion) o fethu â chydymffurfio neu<br>Gwerth y risg yn £0.5-1.0m | Achos(ion) nodedig o fethu â chydymffurfio neu<br>Gwerth y risg yn £1-4m | Achos(ion) o bwys o fethu â chydymffurfio neu<br>Gwerth y risg yn >£4m |
| Amrywiant i'r manteision | Amrywiant yn <5% | Amrywiant yn 5-10% | Amrywiant yn 10-30% | Amrywiant yn >30% |
| Effeithir ar amcanion buddsoddi (gwerth ychwanegol gros, swyddi neu mewnfuddsoddiad) | | | | Unrhyw amrywiant |
| Asesiadau o Achosion Amlinellol Strategol neu Achosion Busnes Amlinellol yn methu ag arwain at argymhelliad llwyddiannus ynghylch Prosiect | | | | Os yw asesiad yn nodi bod prosiect yn perthyn yn gyffredinol i'r categori COCH |
| Prosiect yn methu â chydweithredu neu'n methu â pharchu proses briodol | | | | Sawl achos o dramgwyddo |
| Methiant prosiect (nodwyd yn ystod Adolygiad Gateway) | | | | Os yw Asesiad Hyder Cyflawni yn nodi bod prosiect yn |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | perthyn i'r categori COCH |

## 5 Cau Prosiectau ac Amnewid Prosiectau

5.1 Bydd y categori hwn o newid yn berthnasol yn ystod y Cam Datblygu Prosiect yn unig.

5.2 Mae **Atodiad B** yn egluro'r paramedrau pan allai prosiectau sy'n methu yn y pen draw gael eu cau'n ffurfiol, sut y gallai problemau o'r fath gael eu nodi, sut y bydd 'diffyg hyfywedd' yn cael ei asesu, ble y bydd y penderfyniad hwnnw'n cael ei wneud, a pha opsiynau a chamau gweithredu a fydd yn cael eu hystyried er mwyn penderfynu pa brosiect addas y gellid ei gynnwys yn y Portffolio yn lle un arall, os dymunir gwneud hynny.

5.3 Mae'r Atodiad hwn hefyd yn nodi'r *Rhestr o Brosiectau Arfaethedig* sydd ar gael ar hyn o bryd (rhestr o gynlluniau ymgeisiol posibl yn lle'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn y Portffolio).

5.4 **Ni fydd Prosiectau'n cael eu hamnewid nes y bydd adolygiad blynyddol o'r Achos Busnes Portffolio Strategol wedi'i gwblhau.**

5.5 Mae'r *Llifsiart Newid Prosiectau* sydd ynghlwm yn nodi'r broses a gynigir ar gyfer amnewid prosiectau, ac mae'n cynnwys sut y gellid ymestyn y Rhestr o Brosiectau Arfaethedig yn rhan o hynny, pe bai'r angen yn codi.

## 6 Penderfyniad(au) a geisir

6.1 Bod Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru yn cymeradwyo Protocol Rheoli Newid y Portffolio, ac yn enwedig y broses ar gyfer Cau Prosiectau ac Amnewid Prosiectau (gan ddefnyddio Rhestr o Brosiectau Arfaethedig).

## 7 Goblygiadau cyfreithiol

7.1 Ni ragwelir unrhyw oblygiadau ar hyn o bryd. Efallai y bydd Noddwyr Prosiectau am herio penderfyniad gan Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru i roi cyfarwyddyd i gau prosiect.

## 8 Goblygiadau o ran adnoddau dynol

8.1 Ni ragwelir unrhyw oblygiadau.

## 9 Goblygiadau ariannol

9.1 Ni ragwelir unrhyw oblygiadau ar hyn o bryd. Efallai y bydd Noddwyr Prosiectau wedi mynd i gostau datblygu cymwys hyd at yr adeg pan gaiff y prosiect ei gau. Mae angen ystyried atebolrwydd am y costau hynny.

## 10 Atodiadau

- Atodiad A – Protocol Rheoli Newid y Portffolio – Llifsiart Newid Prosiectau
- Atodiad B – Paramedrau ar gyfer Cau Prosiectau ac Amnewid Prosiectau (gan gynnwys is-atodiadau)